



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Derfynol 2022-23

Cyllideb i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach

Mawrth 2022

llyw.cymru

Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad	1
Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol	3
Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23	7
Pennod 4: Cynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant	21
Atodiad A: Cysoni rhwng y gyllideb weinyddol a dyraniadau adnoddau yng nghynnig y Gyllideb flynyddol	36
Atodiad B: Yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith chwyddiant	38
Atodiad C: Rhestr o dermau	40

Pennod 1: Cyflwyniad

Trosolwg

1.01 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2022-23, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb derfynol yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, ynghyd â chynlluniau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Mae'r Gyllideb derfynol yn adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021.

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

1.02 Achosodd amseriad Adolygiad o Wariant y DU anhawster unwaith eto o ran cyhoeddi Cyllideb eleni; rhoes Llywodraeth Cymru drefniadau eithriadol ar waith o ran proses y gyllideb, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. O ganlyniad, ar 20 Rhagfyr, cyhoeddwyd y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf; cynigion ar drethiant a benthyca; a chynigion portffolio manwl y gyllideb. Mae'r setliad amflwyddyn y bu galw amdano ers tro a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU i'w groesawu. Mae'n golygu y gallwn fynd yn ôl i'r gweithdrefnau arferol yn y blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ddylanwadau allanol.

1.03 Wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2022-23, ystyriwyd elfennau ar Gyllideb Llywodraeth megis o ble mae ein cyllid yn dod, gan gynnwys benthyca a'n pwerau trethu newydd, yn ogystal ag ystyriaeth fanylach ar gynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau polisi'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd eu hadroddiadau ar y Gyllideb ddrafft ar 4 Chwefror, ychydig cyn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft yn y Senedd, a gynhaliwyd ar 8 Chwefror.

1.04 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfraniad pwysig y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau polisi wrth graffu'n adeiladol ar gynigion y Gyllideb. Rydym wrthi'n cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd ac er bod y Gyllideb derfynol hon yn darparu rhai dyraniadau yn ymateb i bwyntiau a wnaed yn y gwaith craffu, byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r rhain cyn y ddadl ar y Gyllideb derfynol ar 8 Mawrth.

Newidiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

1.05 Mae Llywodraeth Cymru yn cario £180m o gyllid ymlaen o 2021-22, y tu allan i drefniadau arferol Cronfa Wrth Gefn Cymru, i ariannu mesurau ychwanegol i ymateb i'r argyfwng costau byw. Mae cyfanswm y pecyn, sy'n cwmpasu 2021-22 i 2022-23, yn werth mwy na £330m ac fe nodwyd manylion mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) ar 15 Chwefror. Ceir manylion y pecyn cymorth ariannol gwerth £162.4m yn 2022-23 ym mhennod 2.

1.06 Gan fod y newidiadau rhwng y Gyllideb drafft a'r Gyllideb derfynol yn adeiladu ar fesurau sy'n bodoli eisoes, a chan fod asesiad o'r effeithiau hyn eisoes wedi'i ddarparu, ni ddarperir rhagor o fanylion fel rhan o'r Gyllideb derfynol hon. O gofio natur yr argyfwng costau byw sy'n esblygu, er hynny, mae'r Prif Economegydd wedi cyhoeddi diweddariad ar ei adroddiad blynyddol (yn Atodiad B). Mae hwn yn amlinellu'r effeithiau diweddaraf sy'n cael eu teimlo ledled Cymru sydd wedi llywio'r ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw.

- 1.07** Wrth gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ac fel rhan o'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn y Gyllideb derfynol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein hysgogiadau cyfalaf, mae'r Gyllideb derfynol hon yn cynnwys dros £180m o fuddsoddiad cyfalaf Trafodiadau Ariannol ychwanegol gyda manylion pellach ym Mhennod 2.
- 1.08** Ochr yn ochr â'r mesurau a amlinellir uchod, mae'r Gyllideb derfynol hon yn cynnwys nifer bach o newidiadau gweinyddol a chyfrifyddu a'r rhagolygon trethi diweddaraf.

Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol

2.01 Amlinellir y newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn y bennod hon.

Pecyn Cymorth Costau Byw

- 2.02** I gefnogi pobl yng Nghymru sy'n wynebu'r argyfwng costau byw rydym yn darparu pecyn pellach o fesurau gwerth £162.4m yn 2022-23 ar sail gyfyngedig o flwyddyn gyda'r nod o helpu aelwydydd incwm isel i ymdopi â'r pwysau uniongyrchol ar gostau byw y gaeaf hwn ac i leihau effaith y toriad i Gredyd Cynhwysol, Credyd Treth Gwaith a chost gynyddol ynni.
- 2.03** Mae hyn yn cynnwys £90m i ymestyn darpariaeth bresennol Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf am flwyddyn arall i redeg y gaeaf nesaf. Bydd hefyd yn cyrraedd mwy o bobl drwy ehangu'r ystod o aelwydydd incwm isel a all gael mynediad at y taliad, fel pensiynwyr sy'n gymwys i gael credyd pensiwn, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o bobl yn cael y taliad o £200 sy'n darparu cymorth hanfodol.
- 2.04** Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf i dalu am gostau hanfodol drwy ddarparu £15m yn ychwanegol i ymestyn y Gronfa Cymorth Dewisol hyd at 31 Mawrth 2023. Bydd y cyllid hwn hefyd yn caniatáu ymestyn hyblygrwydd gan ganiatáu taliadau amlach i fwy o bobl yn ogystal â chymorth gyda chostau ynni ar gyfer cartrefi oddi ar y grid, yn ystod misoedd yr haf yn ogystal â'r gaeaf, gan gynnwys cymorth i Sipsiwn a Theithwyr.
- 2.05** Buddsoddwyd £10m mewn amrywiaeth o fesurau Cyfiawnder Cymdeithasol. Bydd yr ymyriadau hyn yn cefnogi'r aelwydydd mwyaf agored i niwed i sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u hincwm ac yn cael cymorth i dalu costau cynyddol aelwydydd. Mae hyn yn cynnwys £0.6m i ehangu benthycyca gan undebau credyd i'r rhai y mae eu ceisiadau'n cael eu gwrthod ar hyn o bryd oherwydd hanes credyd gwael. Bydd hyn yn helpu pobl sy'n agored i niwed sy'n gallu fforddio ad-dalu benthyciadau i osgoi credyd cost uchel a benthycwyr anghyfreithlon. Rydym hefyd yn darparu dros £1.6m ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl, a fydd yn cynnig cyngor a chymorth ar ddefnyddio incwm yn y ffordd orau bosibl. Bydd cyllid penodol hefyd o bron i £1.5m ar gyfer mudwyr a cheiswyr lloches a £1m ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i fynd i'r afael â chynnydd mewn costau tanwydd a mynediad at wasanaethau. Dyrannwyd swm pellach o £0.7m urddas mislif, gyda £1m wedi'i neilltuo ar gyfer mentrau cydraddoldeb eraill.
- 2.06** Rydym wedi dyrannu £28.4m yn ychwanegol i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â llwgu yn ystod y gwyliau a mynediad at weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol. O'r dyraniad hwn, bydd £21.4m yn ymestyn y ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim dros wyliau'r Pasg, y Sulgwyn a'r Haf, gan adlewyrchu ein cytundeb cydweithio parhaus gyda Phlaid Cymru. Mae swm pellach o £7m yn cael ei ddarparu i gyflwyno'r rhaglen Haf o Hwyl sydd hefyd yn darparu bwyd a gweithgareddau am ddim yn ystod cyfnod yr haf i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed. Yn 2021 cyrhaeddodd y cynllun dros 67,500 o blant, gan gefnogi eu llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol, a'u helpu i ail-ymgysylltu â'u cyfoedion.

- 2.07** Er mwyn cefnogi'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ymhellach, rydym yn darparu £13.1m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Bydd y swm atodol hwn o £100 i bob blwyddyn ysgol yn mynd i'r afael â chostau eraill y diwrnod ysgol gan gynnwys talu costau gwisg Addysg Gorfforol a chostau gwisg ysgol ychwanegol.
- 2.08** Bydd swm pellach o £1m yn cael ei rannu drwy gonsortia a fydd yn defnyddio'r cyllid i roi cymorth i ddysgwyr neu ysgolion sydd mewn angen yn eu tyb hwy. Mae'r cynnydd hwn wedi'i dargedu'n benodol i fynd i'r afael ag effaith pwysau costau byw.
- 2.09** Rydym yn darparu pecyn cymorth gwerth £2m i deuluoedd sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys £1m ar gyfer taliadau atal i deuluoedd ag anghenion gofal a chymorth sy'n cwmpasu eitemau hanfodol. Bydd y £1m sy'n weddill yn creu cronfa i gefnogi teuluoedd sy'n gofalu am blant sy'n derbyn gofal, sy'n dioddef caledi ariannol oherwydd costau byw uwch.
- 2.10** Yn olaf, rydym wedi buddsoddi £2.9m i greu pecyn bwyd cynaliadwy i gefnogi mynediad at fwyd. Bydd y cyllid hwn:
- Yn darparu £1m ar gyfer tlodi bwyd ac ansicrwydd i gefnogi camau gweithredu lleol i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o dlodi bwyd;
 - Yn dyrannu £1m ar gyfer estyniad i'r Cynllun Cychwyn Iach i dalu am y bwch rhwng pan fydd talebau Cychwyn Iach yn gorffen yn bedair oed a dechrau yn yr ysgol a gallu cael prydau ysgol am ddim;
 - Yn darparu £0.7m i ehangu'r cynllun tlodi bwyd mewn ysgolion sef Big Bocs Bwyd i rannau eraill o Gymru i gyfrannu at leihau tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd a gwella'r nifer sy'n bwyta yn faethlon a lleihau gwastraff bwyd; ac
 - Yn dyrannu £0.2m i FareShare Cymru i gefnogi cyrchu a phrynu bwyd ychwanegol i helpu i ddiwallu'r angen cynyddol am fwyd mewn argyfwng, yn ogystal â chostau storio a gweithredu, i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol.
- 2.11** Rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn ddarlun sy'n esblygu gyda chynnydd ym miliau aelwydydd, codiadau Yswiriant Gwladol ac effeithiau cysylltiedig i gadwyni cyflenwi a chostau nwyddau a fydd yn dechrau cael effaith o fis Ebrill ymlaen. Ochr yn ochr â hyn bydd effeithiau i'w teimlo o ganlyniad i'r ymosodiad ar Wcráin. Byddwn yn parhau i fonitro'r effeithiau hyn yn ofalus.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT)

- 2.12** Mae cyfalaf Trafodion Ariannol (FT) yn fath penodol a chymhleth o gyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth y DU gydag amodau ynghlwm wrth sut y gellir ei ddefnyddio; mae angen ad-dalu elfennau o'r cyllid hwn hefyd i Lywodraeth y DU.
- 2.13** O gofio'r cyfyngiadau a'r cymhlethdodau o ran defnyddio cyfalaf FT wedi'i glustnodi, yr amserlenni ar gyfer datblygu cynigion a chyhoeddi'r Adolygiad o Wariant y DU yn hwyr, cawsom ein hatal rhag pennu cynlluniau gwariant FT

fel rhan o'r Gyllideb ddrafft. Rydym bellach mewn sefyllfa i wneud hynny yn y Gyllideb derfynol.

- 2.14 Ochr yn ochr â diweddarau proffiliau ad-dalu ein portffolio FT presennol, bydd y £184m o ddyraniadau FT yr ydym yn eu gwneud yn y Gyllideb derfynol hon yn cefnogi ymhellach y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2021. Bydd y £184m hwn yn adeiladu ar ein portffolio buddsoddi ehangach presennol gwerth £1.7bn.
- 2.15 Amlinellir manylion y dyraniadau isod.
- 2.16 Er mwyn cefnogi busnesau ledled Cymru ymhellach, rydym yn darparu £40m i wella ein Cronfa Dyfodol yr Economi – Cronfa Ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig gan gynnwys datblygu cynigion ar gyfer datgarboneiddio.
- 2.17 Rydym yn dyrannu £37m i fwrw ymlaen â'r newid i gerbydau allyriadau isel, yn cefnogi gwella ansawdd aer, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ac yn cyfrannu at yr ymdrech i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Defnyddir y cyllid hwn yn bennaf i wella ein seilwaith codi tâl. Bydd hefyd yn cyflwyno cynllun benthyciad di-log i alluogi unigolion, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i brynu e-feiciau ac e-feiciau cargo.
- 2.18 Rydym yn dyrannu £35m a fydd yn profi'r defnydd o fodolau ariannu newydd, ochr yn ochr â'r £72m o gyfalaf cyffredinol a ddyrannwyd eisoes yn y Gyllideb ddrafft, i helpu i gyflymu graddfa a chyflymder datgarboneiddio cartrefi Cymru.
- 2.19 Fel rhan o'n huchelgais i adeiladu dyfodol gwyrddach rydym yn buddsoddi yng nghanol trefi. Rydym yn dyrannu swm pellach o £25m i ymestyn ein cynllun Benthyciadau Canol Trefi sy'n llwyddo i weithredu fel sbardun i roi bywyd newydd i adeiladau gwag ac adeiladau nad oes digon o ddefnydd arnynt.
- 2.20 Er mwyn cefnogi gwelliannau i'n hystad addysgol rydym yn darparu £14.9m fel buddsoddiad ychwanegol yn ein rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.
- 2.21 Rydym yn dyrannu swm pellach o £12m i barhau â'r datblygiad seilwaith strategol ym Mharcffordd Caerdydd, a gefnogir gan adroddiad Burns; mae hyn yn rhan o newid dulliau teithio o geir preifat i drafnidiaeth gyhoeddus, un o amcanion allweddol ein dull o fynd i'r afael ag allyriadau carbon o drafnidiaeth.
- 2.22 Rydym yn darparu £10m yn ychwanegol i Tai Ffres, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Llamau a Chymdeithas Tai United Welsh. Bydd y cyllid yn cefnogi'r llwybr tai amgen y mae Tai Ffres wedi'i sefydlu i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau digartrefedd, neu lle na fyddai'r llwybr traddodiadol o wasanaethau llety â chymorth yn addas ar eu cyfer.
- 2.23 Mae £8m yn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'n cynllun llwyddiannus Tir ar gyfer Tai i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Nod craidd y cynllun yw cynyddu'r cyflenwad o dai a chyfradd eu darparu drwy sicrhau safleoedd tir; mae hefyd yn hyrwyddo creu swyddi lleol, cyfleoedd hyfforddi ac yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi datblygu tai.
- 2.24 Gan gydweithio â thair gwlad arall y DU, rydym yn darparu £2m i alluogi treialu Cynllun Benthyciadau Di-log dwy flynedd i'w gyflwyno yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn cael ei dargedu i helpu'r rhai sydd yn aml yn fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Newidiadau Gweinyddol

2.25 Rydym hefyd yn gwneud nifer cymedrol o newidiadau gweinyddol rhwng Prif Grwpiau Gwariant yn ymateb i ystod o faterion sydd wedi codi ers i'r Gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi.

2.26 Mae nifer o newidiadau hefyd i linellau gwariant y gyllideb (BELs) o fewn Prif Grwpiau Gwariant y Newid yn yr Hinsawdd i adlewyrchu'n well y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cylch gwaith ehangach. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- Creu BEL Diogelwch Tomenni Glo i gefnogi cyflwyno deddfwriaeth i ddelio â gwaddol canrifoedd o gloddio a sicrhau diogelwch tomenni glo.
- Creu'r BEL Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i adlewyrchu'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad cysylltiedig yn y Rhaglen Lywodraethu.
- Y BEL 2256 newydd sef Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i adlewyrchu'r broses o greu Is-adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru o fewn Llywodraeth Cymru.
- Disodli BEL Ymbelydredd ac Atal Llygredd â BEL Diogelu'r Amgylchedd a disodli BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Refeniw Dŵr â BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Darparu Polisi Dŵr.

Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Trosolwg

- 3.01** Adlewyrchir y newidiadau a ddisgrifir ym Mhennod 2 yn y cynlluniau gwario diwygiedig a nodir yn y bennod hon.
- 3.02** Nodir y newidiadau manwl i gynigion y Gyllideb rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn 2022-23 yn nhablau BEL MEG Cyllideb derfynol 2022-23, a gyhoeddir ynghyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.
- 3.03** Mae'r dyraniadau ychwanegol a ddarparwyd fel rhan o'r pecyn cymorth costau byw wedi'u darparu ar sail gyfyngedig o flwyddyn ar gyfer 2022-23, sy'n adlewyrchu'r cyllid sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth y DU. Felly, ni fydd y ffigurau sylfaenol ar gyfer 2023-24, a 2024-25 yn cynnwys y dyraniadau hyn a byddant yn dychwelyd i'r dyraniadau dangosol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddrafft. Caiff y rhain eu hailystyried fel rhan o broses flynyddol y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.
- 3.04** O ran y Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT), ochr yn ochr â dyraniadau cyllid ychwanegol, mae'r Gyllideb derfynol hon hefyd yn cynnwys manylion ad-dalu benthyciadau FT presennol a ddangosir fel gwerthoedd negyddol yn y tablau. Rhaid dychwelyd ac ad-dalu elfen o gyllid cyfalaf FT i Lywodraeth y DU, ac mae'n bwysig cydnabod mai taliadau sydd wedi'u dychwelyd ar fuddsoddiadau blaenorol yw ad-daliadau ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar ddyraniadau presennol.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllido Llywodraeth Cymru

CYLLIDEB DERFYNOL 2022-23									
ELFENNAU CYLLIDO CYMRU	Cyllideb Ddrafft 2022-23 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022
	£000oedd								
CYLLIDO ADNODDAU									
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):									
Cyllidoll	15,065,110	180,196	15,245,306	15,349,944	—	15,349,944	15,638,809	—	15,638,809
Anghyllidoll	1,519,960	—	1,519,960	1,519,960	—	1,519,960	1,519,960	—	1,519,960
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	67,000	(33,000)	34,000	38,000	(16,000)	22,000	48,000	(17,000)	31,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):									
Cyllidoll	28,063	—	28,063	26,045	—	26,045	26,045	—	26,045
Anghyllidoll	191,034	—	191,034	235,641	—	235,641	18,717	—	18,717
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:									
Ardrethi Annomestig	1,030,000	—	1,030,000	1,121,000	—	1,121,000	1,148,000	—	1,148,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,477,747	—	2,477,747	2,629,356	—	2,629,356	2,748,343	—	2,748,343
Treth Trafodiadau Tir	365,714	14,828	380,542	382,699	15,515	398,214	403,658	16,175	419,833
Treth Gwarediadau Tirlenwi	35,935	(747)	35,188	35,905	(748)	35,157	35,721	(748)	34,973
Ad-dalu Prifysymiau Benthyciadau	(7,656)	1,492	(6,164)	(12,962)	1,493	(11,469)	(18,272)	1,494	(16,778)
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	20,772,907	162,769	20,935,676	21,325,588	260	21,325,848	21,568,981	(79)	21,568,902

CYLLIDEB DERFYNOL 2022-23

ELFENNAU CYLLIDO CYMRU	Cyllideb Ddrafft 2022-23 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022	Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Derfynol 2023-24 Mawrth 2022	Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2021	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Derfynol 2024-25 Mawrth 2022
	£000oedd								
CYLLIDO CYFALAF									
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):									
Cyffredinol	2,377,963	—	2,377,963	2,514,687	—	2,514,687	2,503,138	—	2,503,138
Trafodiadau Ariannol	265,026	—	265,026	95,754	—	95,754	90,386	—	90,386
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):									
Cyfalaf	1,051,366	—	1,051,366	1,161,411	—	1,161,411	1,277,302	—	1,277,302
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:									
Benthyca	150,000	—	150,000	150,000	—	150,000	150,000	—	150,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	3,844,355	—	3,844,355	3,921,852	—	3,921,852	4,020,826	—	4,020,826
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	24,617,262	162,769	24,780,031	25,247,440	260	25,247,700	25,589,807	(79)	25,589,728

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25
	£000oedd								
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,323,198	(4,160)	10,319,038	10,654,035	(11,937)	10,642,098	10,830,950	(14,198)	10,816,752
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,639,245	42,487	5,681,732	5,879,245	43,321	5,922,566	6,016,245	45,979	6,062,224
Y Gymraeg ac Addysg	3,436,100	40,008	3,476,108	3,646,445	16,117	3,662,562	3,792,536	2,454	3,794,990
Newid Hinsawdd	2,856,043	55,435	2,911,478	2,924,148	13,590	2,937,738	2,792,390	(4,745)	2,787,645
Yr Economi	572,446	(41,708)	530,738	591,946	(23,652)	568,294	610,946	(51,125)	559,821
Materion Gwledig	393,162	—	393,162	456,162	—	456,162	477,962	—	477,962
Cyfiawnder Cymdeithasol	155,418	118,726	274,144	165,400	824	166,224	168,400	288	168,688
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	356,995	(285)	356,710	359,995	(285)	359,710	360,995	(285)	360,710
Cyfanswm Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru MEGs	23,732,607	210,503	23,943,110	24,677,376	37,978	24,715,354	25,050,424	(21,632)	25,028,792

PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)		Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25
£000oedd										
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	99,638	505	100,143	562	491	1,053	665	151	816
	Adnoddau Anghyllidol	520,374	—	520,374	491,789	—	491,789	465,458	—	465,458
Cyfalaf heb ei Ddyrannu	Trafodiadau Ariannol	265,026	(51,942)	213,084	95,754	(37,912)	57,842	90,386	21,699	112,085
Gor-ddyraniad Cyfalaf Cyffredinol		(79,715)	4,000	(75,715)	(98,541)	—	(98,541)	(98,840)	—	(98,840)
Comisiwn y Senedd		62,942	—	62,942	64,245	—	64,245	65,444	—	65,444
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru		5,354	(17)	5,337	5,354	(17)	5,337	5,354	(17)	5,337
Archwilydd Cyffredinol Cymru		8,888	(280)	8,608	8,888	(280)	8,608	8,888	(280)	8,608
Y Comisiwn Etholiadol		1,400	—	1,400	1,250	—	1,250	1,250	—	1,250
Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Granfa Gyfunol Cymru		748	—	748	763	—	763	778	—	778
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU		24,617,262	162,769	24,780,031	25,247,440	260	25,247,700	25,589,807	(79)	25,589,728

Tabl 3.3 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2022-23

CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT 2022-23										
£000oedd										
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol			CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,535,351	257,956	9,793,307	339,311	—	339,311	186,420	—	186,420	10,319,038
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,485,271	421	4,485,692	166,040	—	166,040	1,030,000	—	1,030,000	5,681,732
Y Gymraeg ac Addysg	1,754,758	459,895	2,214,653	355,300	1,093	356,393	(146,304)	1,051,366	905,062	3,476,108
Newid Hinsawdd	927,391	239,121	1,166,512	1,575,511	69,062	1,644,573	100,393	—	100,393	2,911,478
Yr Economi	390,823	11,598	402,421	102,501	(19,709)	82,792	45,525	—	45,525	530,738
Materion Gwledig	345,145	10,817	355,962	37,200	—	37,200	—	—	—	393,162
Cyfiawnder Cymdeithasol	227,427	158	227,585	17,000	1,496	18,496	28,063	—	28,063	274,144
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	326,490	17,020	343,510	10,000	—	10,000	3,200	—	3,200	356,710
CYFANSWM DYRANIAD I PRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	17,992,656	996,986	18,989,642	2,602,863	51,942	2,654,805	1,247,297	1,051,366	2,298,663	23,943,110

Tabl 3.4 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2023-24

CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT DANGOSOL 2023-24										
£000oedd										
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol			CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,818,885	257,956	10,076,841	375,000	—	375,000	190,257	—	190,257	10,642,098
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,577,256	421	4,577,677	223,889	—	223,889	1,121,000	—	1,121,000	5,922,566
Y Gymraeg ac Addysg	1,769,483	488,480	2,257,963	360,300	12,477	372,777	(129,589)	1,161,411	1,031,822	3,662,562
Newid Hinsawdd	916,391	239,121	1,155,512	1,631,008	26,770	1,657,778	124,448	—	124,448	2,937,738
Yr Economi	404,984	11,598	416,582	108,016	(1,829)	106,187	45,525	—	45,525	568,294
Materion Gwledig	408,145	10,817	418,962	37,200	—	37,200	—	—	—	456,162
Cyfiawnder Cymdeithasol	122,527	158	122,685	17,000	494	17,494	26,045	—	26,045	166,224
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	329,490	17,020	346,510	10,000	—	10,000	3,200	—	3,200	359,710
CYFANSWM DYRANIAD I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	18,347,161	1,025,571	19,372,732	2,762,413	37,912	2,800,325	1,380,886	1,161,411	2,542,297	24,715,354

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2024-25

CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT DANGOSOL 2024-25										
£000oedd										
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol			CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,036,624	257,956	10,294,580	395,000	—	395,000	127,172	—	127,172	10,816,752
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,689,912	421	4,690,333	223,891	—	223,891	1,148,000	—	1,148,000	6,062,224
Y Gymraeg ac Addysg	1,806,983	514,811	2,321,794	360,300	(686)	359,614	(163,720)	1,277,302	1,113,582	3,794,990
Newid Hinsawdd	938,391	239,121	1,177,512	1,596,956	8,437	1,605,393	4,740	—	4,740	2,787,645
Yr Economi	421,090	11,598	432,688	111,016	(29,408)	81,608	45,525	—	45,525	559,821
Materion Gwledig	430,145	10,817	440,962	37,000	—	37,000	—	—	—	477,962
Cyfiawnder Cymdeithasol	125,527	158	125,685	17,000	(42)	16,958	26,045	—	26,045	168,688
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	330,490	17,020	347,510	10,000	—	10,000	3,200	—	3,200	360,710
CYFANSWM DYRANIAD I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	18,779,162	1,051,902	19,831,064	2,751,163	(21,699)	2,729,464	1,190,962	1,277,302	2,468,264	25,028,792

Tabl 3.6 – Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru

DYRANIADAU CYLLIDOL									
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidia dau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidia dau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25	Newidia dau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25
£000oedd									
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,543,822	(8,471)	9,535,351	9,830,822	(11,937)	9,818,885	10,050,822	(14,198)	10,036,624
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,456,961	28,310	4,485,271	4,555,961	21,295	4,577,256	4,665,961	23,951	4,689,912
Y Gymraeg ac Addysg	1,715,843	38,915	1,754,758	1,765,843	3,640	1,769,483	1,803,843	3,140	1,806,983
Newid Hinsawdd	940,529	(13,138)	927,391	929,529	(13,138)	916,391	951,529	(13,138)	938,391
Yr Economi	390,823	—	390,823	404,823	161	404,984	420,823	267	421,090
Materion Gwledig	345,145	—	345,145	408,145	—	408,145	430,145	—	430,145
Cyfiawnder Cymdeithasol	110,177	117,250	227,427	122,177	350	122,527	125,177	350	125,527
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	326,795	(305)	326,490	329,795	(305)	329,490	330,795	(305)	330,490
Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidebol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	17,830,095	162,561	17,992,656	18,347,095	66	18,347,161	18,779,095	67	18,779,162

DYRANIADAU ANGHYLLIDOL

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	257,956	—	257,956	257,956	—	257,956	257,956	—	257,956
Cyllid a Llywodraeth Leol	421	—	421	421	—	421	421	—	421
Y Gymraeg ac Addysg	459,895	—	459,895	488,480	—	488,480	514,811	—	514,811
Newid Hinsawdd	239,121	—	239,121	239,121	—	239,121	239,121	—	239,121
Yr Economi	11,598	—	11,598	11,598	—	11,598	11,598	—	11,598
Materion Gwledig	10,817	—	10,817	10,817	—	10,817	10,817	—	10,817
Cyfiawnder Cymdeithasol	178	(20)	158	178	(20)	158	178	(20)	158
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	17,000	20	17,020	17,000	20	17,020	17,000	20	17,020
Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	996,986	—	996,986	1,025,571	—	1,025,571	1,051,902	—	1,051,902
Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	18,827,081	162,561	18,989,642	19,372,666	66	19,372,732	19,830,997	67	19,831,064

Tabl 3.7 – Newidiadau i Ddyfarniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL									
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidia dau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidia dau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25	Newidia dau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25
	£000oedd								
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	335,000	4,311	339,311	375,000	—	375,000	395,000	—	395,000
Cyllid a Llywodraeth Leol	151,863	14,177	166,040	201,863	22,026	223,889	201,863	22,028	223,891
Y Gymraeg ac Addysg	355,300	—	355,300	360,300	—	360,300	360,300	—	360,300
Newid Hinsawdd	1,576,000	(489)	1,575,511	1,631,050	(42)	1,631,008	1,597,000	(44)	1,596,956
Yr Economi	124,500	(21,999)	102,501	130,000	(21,984)	108,016	133,000	(21,984)	111,016
Materion Gwledig	37,200	—	37,200	37,200	—	37,200	37,000	—	37,000
Cyfiawnder Cymdeithasol	17,000	—	17,000	17,000	—	17,000	17,000	—	17,000
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	10,000	—	10,000	10,000	—	10,000	10,000	—	10,000
Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	2,606,863	(4,000)	2,602,863	2,762,413	—	2,762,413	2,751,163	—	2,751,163

DYRANIADAU CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyllid a Llywodraeth Leol	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Y Gymraeg ac Addysg	—	1,093	1,093	—	12,477	12,477	—	(686)	(686)
Newid Hinsawdd	—	69,062	69,062	—	26,770	26,770	—	8,437	8,437
Yr Economi	—	(19,709)	(19,709)	—	(1,829)	(1,829)	—	(29,408)	(29,408)
Materion Gwledig	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyfiawnder Cymdeithasol	—	1,496	1,496	—	494	494	—	(42)	(42)
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	—	51,942	51,942	—	37,912	37,912	—	(21,699)	(21,699)
Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	2,606,863	47,942	2,654,805	2,762,413	37,912	2,800,325	2,751,163	(21,699)	2,729,464

Tabl 3.8 – Newidiadau i Ddyraniadau Prif Grwpiau Gwariant AME Llywodraeth Cymru

DYRANIADAU ADNODDAU									
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidia dau 2022-23	Cyllideb Derfynol 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidia dau 2023-24	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25	Newidia dau 2024-25	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25
£000oedd									
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	186,420	—	186,420	190,257	—	190,257	127,172	—	127,172
Cyllid a Llywodraeth Leol	1,030,000	—	1,030,000	1,121,000	—	1,121,000	1,148,000	—	1,148,000
Y Gymraeg ac Addysg	(146,304)	—	(146,304)	(129,589)	—	(129,589)	(163,720)	—	(163,720)
Newid Hinsawdd	100,393	—	100,393	124,448	—	124,448	4,740	—	4,740
Yr Economi	45,525	—	45,525	45,525	—	45,525	45,525	—	45,525
Materion Gwledig	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyfiawnder Cymdeithasol	28,063	—	28,063	26,045	—	26,045	26,045	—	26,045
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3,200	—	3,200	3,200	—	3,200	3,200	—	3,200
Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	1,247,297	—	1,247,297	1,380,886	—	1,380,886	1,190,962	—	1,190,962

DYRANIADAU CYFALAF

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyllid a Llywodraeth Leol	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Y Gymraeg ac Addysg	1,051,366	—	1,051,366	1,161,411	—	1,161,411	1,277,302	—	1,277,302
Newid Hinsawdd	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Yr Economi	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Materion Gwledig	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyfiawnder Cymdeithasol	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	—	—	—	—	—	—	—	—	—
Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	1,051,366	—	1,051,366	1,161,411	—	1,161,411	1,277,302	—	1,277,302
Cyfanswm y Dyraniadau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	2,298,663	—	2,298,663	2,542,297	—	2,542,297	2,468,264	—	2,468,264

Pennod 4: Cynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant

Tabl 4.1 - CYFANSWM – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn

CYFANSWM – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn							
PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)	Cyllideb Derfynol 2021-22 Gwaelodlin Ddiwygiedig	Cynlluniau Newydd 2022-23		Cynlluniau Newydd 2023-24		Cynlluniau Newydd 2024-25	
		£000oedd	% Change	£000oedd	% y newid	£000oedd	% y newid
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,318,962	10,319,038	10.73%	10,642,098	3.13%	10,816,752	1.64%
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,221,370	5,681,732	8.82%	5,922,566	4.24%	6,062,224	2.36%
Y Gymraeg ac Addysg	2,729,366	3,476,108	27.36%	3,662,562	5.36%	3,794,990	3.62%
Newid Hinsawdd	2,488,822	2,911,478	16.98%	2,937,738	0.90%	2,787,645	(5.11)%
Yr Economi	527,859	530,738	0.55%	568,294	7.08%	559,821	(1.49)%
Materion Gwledig	356,305	393,162	10.34%	456,162	16.02%	477,962	4.78%
Cyfiawnder Cymdeithasol	133,148	274,144	105.89%	166,224	(39.37)%	168,688	1.48%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	324,374	356,710	9.97%	359,710	0.84%	360,710	0.28%
Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	21,100,206	23,943,110	13.47%	24,715,354	3.23%	25,028,792	1.27%

Tabl 4.2 – CYFANSWM – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol

CYFANSWM – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol							
